## Cofnodion o Gyfarfod o Gyngor Cymuned Ciliau Aeron a gynhaliwyd ar nos Iau 4ydd Tachwedd 2021 am 7.30 pm yn Neuadd Bentref Cilcennin

Yn bresennol: Y Cynghorydd Iwan Thomas (Cadeirydd), y Cynghorwyr Michelle Davies, Nigel Davies, Helen Evans, Arwel Jones, Gwyndaf Morgan, Alwen Thomas a Ray Williams
Denfer Morgan (Clerc).

451 **Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Robert Davies, John Lumley a'r Cynghorydd Sir Marc Davies am fethu a bod yn bresennol yn y cyfarfod.

452 **Datgelu Buddiant**

Fe ddatgelodd y Cynghorydd Iwan Thomas fuddiant personol ac un sy'n rhagfarnu yn y mater y cyfeirir ato yng nghofnod 461 isod – Menter Tafarn y Vale.

453 **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo, fel rhai cywir, cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 7fed Hydref 2021.

454 **Materion y Codi o'r Cyfarfod**

Cofnod 450:

a) nodi fod y Clerc wedi cysylltu gydag Ysgrifennyd Pwyllgor Rheoli Neuadd Bentref Ciliau Aeron ynghylch gwneud cais am grant cymunedol y Cyngor sir ar gyfer cost trwsio'r cyfarpar yn y lle chwarae;
b) Na chlywed dim oddi wrth y Cyngor Sir ar ôl tynnu ei sylw at broblem dŵr yn rhedeg lawr y ffordd breifat o gwlfert ar rhiw y Bont Newydd yng Nghiliau Aeron
c) gofynwyd i'r Clerc ddilyn i fyny cais y Cyngor i'r Cyngor Sir i osod arhosfan bws 'flag and pole' ar Sgwâr y Graig
d) nodi fod y Cyngor Sir wedi torri'r tyfiant ar ochr yr Ysgol Gynradd yr A482 ar sgwâr Ciliau Aeron ond roedd y tyfiant o flaen y tŷ ar ochr arall y gyffordd heb ei dorri.

455 **Materion Cyllidol**

**NODWYD** nodi derbyn y trydydd taliad Praesept yn y swm o £1,433.33.

456 **Materion Cynllunio**

Rhoddwyd ystyriaeth i ddau cais cynllunio a phenderfynwyd fel a ganlyn:

a) A210857 - Brynawel, Ciliau Aeron. *Pool House and Swimming Pool.*

**Penderfyniad**: Dim gwrthwynebiad.

b) Pre-consultation for telecommunication development - Our ref. Tŷ Mawr Home Farm.

**Penderfyniad**: Dim gwrthwynebiad.

457 **Mynwent Eglwys y Drindod Sanctaidd, Cilcennin**

Nodwyd nad oedd dim byd pellach wedi'i glywed oddi wrth asiantwyr Awdurdodau'r Eglwys, Cooke and Arkwright.

458 **Cynllun Band Eang Wefibre**

Cytunwyd y dylid cysylltu gyda Hywel Glyn Evans a oedd wrthi'n hel enwau yn ardal Llanfihangel Ystrad er mwyn casglu gwybodaeth ychwanegol a phenodi 'pencampwr' yn y gymuned.

459 **Cyfarfod Ymgynghorol gyda Chyngor Sir Ceredigion**

**PENDERFYNWYD**

**i)** penodi'r Cynghorwyr Arwel Jones ac Iwan Thomas i gynrychioli'r Cyngor yn y cyfarfod rhwng cynrychiolwyr y Cyngor Sir a Chynghorau Tref a Chymuned – ar 22ain Tachwedd; a
**ii)** chynnig y materion canlynol ar gyfer cael ei trafod: gor-yrru yn y gymuned a'r cais am wasanaeth graeanu ar yr B4339, yn enwedig y darn sy'n cyd-rhedeg gyda Ysgol Gynradd Ciliau Parc.

460 **Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanarlwyo**

Cytunwyd y dylai'r Aelodau ymateb fel unigolion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanarlwyo

461 **Menter Tafarn y Dyffryn**

Rhoddwyd ystyriaeth i lythyr dyddiedig 31ain Hydref yn gofyn i'r Cyngor gefnogi Menter Tafarn y Dyffryn drwy gynnig cefnogaeth ariannol i'r Fenter Gydweithredol, drwy brynu cyfranddaliadau yn y fenter.

Dywedodd y Clerc fod Adran 3(5) o Ran 1 Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi'r pŵer i'r Cyngor *wneud unrhyw beth sy'n debygol, yn eu barn nhw, o hybu neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol eu hardal a/neu bobl yn yr ardal honno"; a'I fod hefyd fod yn caniatáu'r Cyngor i "ddefnyddio'r pŵer er budd neu mewn perthynas ag unrhyw berson neu ardal, sydd *y tu allan i'w ardal* os yw o'r farn bod gwneud hynny yn debygol o hybu neu wella lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ei ardal a/neu unrhyw bobl o fewn ei ardal".

Esboniodd y Clerc nad oedd gan y Cyngor arian yng Nghyllideb eleni ar gyfer y gwariant hwn ond fod tua £3,500 o arian wrth gefn os oedd yr Aelodau am ystyried brynu cyfranddaliadau.

Nodwyd y gellid disgwyl o leia' dau gais arall am gymorth ariannol yn ystod gweddill y flwyddyn ariannol hon a'r un ddilynol.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

i) prynu pump o gyfranddaliadau ym Menter Tafarn y Vale yn y swm o £1,000; a
ii) ystyried ceisiadau tebygol am gymorth ariannol wrth ystyried cyllideb 2022-23.

462 **Unrhyw Fater Arall**

Cytunwyd y canlynol:

a) dwyn sylw'r Cyngor Sir at yr arwydd 40 mya odd wedi'I falu ar yr A482 i'r gogledd o Giliau Aeron; ac at sbwriel a oedd wedi'iI adael yng anghyfreithlon ger Blaenlluest ar y ffordd rhwng Cilcennin a Dyffryn Arth.
b) nodi fod Pwyllgor Gwaith Eisteddod Genedlaethol Ceredigion wedi penderfynnu y byddai'r Eisteddfod yn cael ei gynnal yn 2022.
c) nodi trefniadau Sul y Cofio yng Nghilcennin a Chiliau Aeron.
d) nodi'r gwybodaeth a dderbyniwyd oddi wrth y Cyngor Sir ynghylch gohirio paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.
e) atgoffa'r Aelodau fod yna wahoddiad am enwebiadau ar gyfer ymaelodi â Fforwm Mynediad Ceredigion.

Daeth y cyfarfod i ben am 9:10pm